

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 21 Medi 2017 am 1830

PRESENNOL:

Y Cyngorydd Dafydd Owen

Y Cyngorydd Dafydd Jones

Y Cyngorydd Huw Jones

Y Cyngorydd Iwan Hywel

Y Cyngorydd Gabrielle Wyn

Y Cyngorydd Mair Owen Pierce

Y Cyngorydd Mair Jones

Y Cyngorydd Angharad Williams

Y Cyngorydd Mair Leverett

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Owen Pierce.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd Roberts a Gwen Griffith

2. Swyddog Adfywio Bro

Roedd y Swyddog Adfywio Bro wedi llunio briff ac wedi ymgynghori gyda Rheolwr Prosiect Partneriaeth Ogwen. Derbyniwyd amcan-bris gan Partneriaeth Ogwen am wneud y gwaith. Penderfynwyd derbyn y pris.

3. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda Sustrans ynghylch symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref.

4.2 Croes Celtaidd yn Graig y Pandy – penderfynwyd ysgrifennu at Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd gyda'n pryderon ynglŷn a'r groes.

4.3 Gwair ger Felin Fawr yn felyn-angen cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os yw chwynladdwr wedi cael ei ddefnyddio ar y safle. Dim ymateb hyd yn hyn. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd unwaith eto.

4.4 Adnewyddu prydles Canolfan Tregarth- nid yw'r Cyngor yn hapus i arwyddo les newydd heb dderbyn mwy o fanylion ynghylch cyflwr yr adeilad yn gyntaf. Y Cyngor yn awyddus cael camerâu i ddarganfod cyflwr y draeni sy'n rhedeg o dan yr adeilad, copi o'r cofrestr asbestos ac hefyd adroddiad risg yr adeilad.

5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Medi 2017'

Cyflwynwyd: e-bost gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd – ynglŷn a clustogau cyflymder ar Ffordd B4409, Tregarth. Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol o gael y clustogau, ond bod y nifer arfaethedig o 10 yn ormod. Buasai 3 yn ddigonol.

Cyflwynwyd: e-bost gan y Cyng. Dafydd Meurig – yn ein hysbysu bod cyllid ar gael ar gyfer darparu bwrdd picnic os fyddai'r Cyngor yn fodlon ysgwyddo cynnal yr eitemau yn y dyfodol. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i wneud hyn, a trefnwyd is-bwyllgor i ymweld a'r safle i drafod y lleoliad gorau i'r bwrdd. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyng. Dafydd Meurig ynglŷn a chael bwrdd picnic ochr arall i'r dwnnel hefyd.

Cyflwynwyd: e-bost gan Ysgol Bodfeurig yn hysbysu nad oes gan y Cyngor gynrychiolydd ar gorff Llywodraethwyr yr ysgol. Y Clerc i ymateb oherwydd bod dwy sedd wag ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i gynnig cynrychiolydd.

Cyflwynwyd: e-bost ynglŷn a ymgynghoriad Bil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig. Unrhyw sylwadau i'w hanfon erbyn 20 Tachwedd 2017. Penderfynwyd bydd y Cynghorwyr yn ateb fel unigolion.

Cyflwynwyd: e-bost gan y Cyng. Gareth Davies yn ymddiswyddo, gan ei fod nawr yn byw yn Llangefni.

Cyflwynwyd: llythyr gan Aaron & Partners-ymgynghoriad anffurfiol ar ran Dŵr Cymru, mae'n bosib fydd rhan o'r gwaith uwchraddio yn cynnwys gwaith i'r safle trin dŵr yn Mynydd Llandygai.

6. Gwaith y mis

- 6.1 Lloches bws ger y Stad Ddiwydiannol, Llandygai-yn llawn dail, ac angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am roi gwybod i Gyngor Gwynedd
- 6.2 Cerrig Llwydion-angen drych ar y ffordd, fel yn Hendurnpike. Y Cyng. Dafydd Owen am wneud ymholiadau.
- 6.3 Arwyddion Llandygai-dim golwg ohonynt. Y Clerc i fynd ar ôl Cyngor Gwynedd unwaith eto

7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Neuadd Talgai – bob dim yn iawn ar hyn o bryd

Ysgol Llandygai – adroddwyd bod 150 o blant yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a bod llawer o drafnidiaeth. Gwirfoddolwyr yn mynd allan gyda siaced felyn i drïo arafu'r traffic. Y Clerc i holi am arwyddion 10mya gan Gyngor Gwynedd a hefyd arwydd 'dim ffordd trwodd' gan bod ymwelwyr i'r castell yn cymryd y troad anghywir.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Awst.

8.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

9. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Ysgol Dyffryn Ogwen	£200.00
Parry & Co-cyfrifydd	£330.00

10. Cyfethol aelodau ar gyfer Ward Llandygai

Penderfynwyd cyfethol Ffion Jones a Richard Fraser-Williams. Y Clerc i anfon cadarnhad i'r ddau aelod newydd.

11. Ysgol Bodfeurig-cynrychiolydd

Oherwydd bod dwy sedd wag ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i gynnig cynrychiolydd.

12. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Codi modurdai i wasanaethu llety gwyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C16/1339/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Newid defnydd ysgubor yn uned wyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd

C17/0498/16/LL

Llaethdy Parc Bryn Cegin, Bangor

Codi ffatri/llaethdy gaws ynghyd a chaffi a ardal ymwelwyr atodol

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

C17/0612/16/LL

Tyddyn Ganol, Llwybr Main, Mynydd Llandygai

Addasiadau ac estyniad i dŷ presennol

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau

13. Ceisiadau Cynllunio

NP3/16/10B

Pâr o feudai yn Fferm Pentre, Nant Ffrancon, Bethesda

Newid defnydd tir a gwaith peirianyddol a thirlunio i ddarparu 5 man parcio ceir a storfa deunyddiau, lleoli dau gynhwysedd stôr (ôl-

NP3/16/LB10A	<p>weithredol) a phwmp gwres ffynhonnell awyr, a newidiadau i'r adeilad gweithdy ar adeilad bwyta Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad</p>
CTIL_207987_TEF_50749	<p>Pâr o feudai yn Fferm Pentre, Nant Ffrancon, Bethesda Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol i ychwanegu uned gwresogi ffynhonnell awyr mewnol a rheiddiaduron yn yr adeilad fwyta Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad</p>
C17/0891/16/LL	<p>Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth Gosod gorsaf sylfaen arfaethedig Penderfyniad: Gwrthwynebu oherwydd 1) mae'r mast yn weladwy amlwg o safbwynt eiddo yn Tal y Cae 2) mae yna gyfres o leoliadau safleoedd hanesyddol cofrestredig gerllaw.</p>
C17/0722/16/LL	<p>Mike's Garage, Unit 2, Ystad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor Dymchwel gweithdy presennol ynghyd a chodi gweithdy (siu generis) newydd yn ei le Penderfyniad: Cefnogi</p>
C17/0744/16/LL	<p>The Cottage, Coed y Parc, Bethesda Dymchwel yr adeilad presennol a chodi adeilad ar gyfer defnydd fel stiwtio yn yr ardd Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad</p>
C17/0897/16/LL	<p>Uned 2, Ystad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor Estyniad bwriadedig i'r cyfleuster cynhyrchu presennol er creu gofod ychwanegol ar gyfer storio a phacio Penderfyniad: Cefnogi</p>
C17/0897/16/LL	<p>Ystad Ddiwydiannol Coed y Parc, Bethesda, Bangor Creu compownd storio allanol, ffensio diogelwch a creu 14 llecyn parcio ychwanegol Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad</p>

C17/0908/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Creu cwrs 4 weiren sip i gymryd lle 4
weiren sip bach wedi eu lleoli is-law y
brif weiren sip, gosod cyfarpar ac
isadeiledd cysylltiedig a llwyfannau i'r
rhai presennol ac ymestyn cloddiau
aciwstig presennol

Penderfyniad: Cefnogi

C17/0903/16/LL

Carreg y Fedwen, Sling, Tregarth
Creu canolfan ymchwil a menter
iachad cysegredig gan gynnwys codi
pedwar adeilad newydd, creu
meysydd parcio a chodi wal ffin 2.3m
o uchder (cais diwygiedig i gais
dynnwyd yn ol - C16/1158/16/LL)

Penderfyniad: Gwrthwynebu –
oherwydd 1) Mae'r strwythurau yn
llawer rhy uchel, a'u cynllun/ffurf yn
amhriodol i'r ardal 2) Mae'r ffordd
at Carreg y Fedwen yn gul iawn, a
byddai yn methu dygymod a'r traffig
fyddai yn cael ei greu gan y busnes
yma.

14. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.